Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru – Ymatebion i'r Ymgynghoriad** |
| **DYDDIAD** | **28 Chwefror 2013** |
| **GAN** | **Huw Lewis, Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth** |

Mae'r Papur Gwyn ar Dai: *Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*, a gyhoeddais ar 21 Mai 2012, yn cynnwys ymrwymiad i foderneiddio'r sector tai rhent preifat drwy gyflwyno mesurau i wella safonau rheoli a chyflwr yr eiddo. Cafodd yr angen i wella'r sector ei nodi hefyd gan Aelodau'r Cynulliad yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: *Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru 2011,* a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei ymchwiliad i ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru *(2012).*

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rydym yn bwriadu cyflwyno cynllun trwyddedu i landlordiaid ac asiantaethau sy'n gosod a rheoli yn y sector hwn o'r farchnad dai. Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddais bapur ymgynghori: *Cynigion ar gyfer Gwell Sector Rhentu Preifat yng Nghymru*, a oedd yn rhoi rhagor o fanylion am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun trwyddedu cenedlaethol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 17 Awst 2012.

Roedd yr ymgynghoriad yn targedu rhanddeiliaid, ond fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru i'r cyhoedd ei weld. Cafwyd bron 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae crynodeb ohonynt wedi ei gyhoeddi.

I weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cliciwch ar y ddolen:
http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/proposalprivaterentsector/?lang=cy